# RHYS, ERNEST (PERCIVAL) (1859 - 1946), bardd, awdur, a golygydd

**Enw:** Ernest (Percival) Rhys
**Dyddiad geni:** 1859
**Dyddiad marw:** 1946
**Priod:** Grace Rhys (née Little)
**Rhiant:** Emma Rhys (née Percival)
**Rhiant:** John Rhys
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd, awdur, a golygydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 17 Gorffennaf 1859 yn Islington, Llundain, mab John Rhys, g r o Gaerfyrddin a weithiai mewn siop cyhoeddwyr yn Llundain, a'i wraig Emma, merch Robert Percival, Hockerell, sir Hertford. Yn fuan wedi geni'r mab symudodd y rhieni i Nott Square, Caerfyrddin, ac mewn ysgol yn y dref honno y cafodd Ernest Rhys ddechrau ei addysg; o Gaerfyrddin symudodd y teulu i Newcastle-on-Tyne. Anfonwyd Rhys i Ysgol Ramadeg Bishop's Stortford, yn sir enedigol ei fam; bu wedyn mewn ysgol ddyddiol yn Newcastle-on-Tyne. Arfaethai'r tad iddo fynd i Brifysgol eithr dewisodd yn hytrach fyned i ymgymhwyso fel peiriannydd mewn mwnau glo. Treuliodd rai blynyddoedd yn y gwaith hwnnw yn Langley a phasio arholiad peiriannydd. Eithr gan mai mewn llenydda yr oedd ei brif ddiddordeb penderfynodd fyned i Lundain ac aeth yno fis Ionawr 1886.

Fe gysylltir enw Ernest Rhys am amser maith eto â golygyddiaeth yr ' *Everyman's Library* ' a gyhoeddir gan ffyrm J. M. Dent; o c. 1886, pryd y dechreuwyd cyhoeddi (1906 yn ôl y *D.N.B.*), hyd 1950 yr oedd agos i fil o wahanol lyfrau wedi eu cynnwys yn y gyfres hon - a Rhys yn parhau hyd adeg ei farw yn olygydd cyffredinol; dechreuasai, yn 1886, olygu cyfres arall - y ' *Camelot Series* ' - i'r un cyhoeddwr. Y mae a fynno llawer o weithiau gwreiddiol Rhys (a rhai o'r cyfrolau yn ' *Everyman* ' a olygai ef yn bersonol) â barddoniaeth, rhamant, a llên-gwerin Cymru neu'r gwledydd Celtaidd eraill; am fanylion gweler *Who's Who*, 1946, a'r ddau waith hunangofiannol a enwir yn y rhestr ffynonellau (isod). Priododd Grace (bu farw 1929), merch Bennett Little, sir Roscommon, Iwerddon, a bu iddynt 3 o blant; yr oedd hithau yn awdures; am ei llyfrau hi gweler *Who's Who*, 1946 - yn eu plith y mae *A Celtic Anthology*, 1927. Er mai yn Llundain yr oeddynt yn byw fynychaf, treuliodd Ernest a Grace Rhys lawer o'u hamser yng Nghymru. Darllennid llawer, yn nechrau'r 20fed ganrif, ar ei ' Welsh Literary Notes ' a arferai ymddangos bob dydd Sadwrn yn y *Manchester Guardian*. Ymysg gweithiau Cymreig (neu Geltaidd) Rhys y mae *The Fiddler of Carne*, (1896), *Welsh Ballads*, 1898, *The Whistling Maid*, 1900, *Lays of the Round Table*, 1908, a *The South Wales Coast*, 1911; cyhoeddodd hefyd *Readings from Welsh History*, gwaith y defnyddid cryn lawer arno yn ysgolion Cymru ar un adeg. Bu farw 25 Mai 1946 yn Llundain.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


*The Times*, 27 Mai 1946

*Who's who?*, 1946

Ernest Rhys, *Everyman Remembers* (London 1931)

Ernest Rhys, *Wales England Wed. An autobiography, etc.* (London 1940)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Ernest Rhys

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 133909

Wikidata: Q5393735


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu